

PET(4)-01-12 p16g

## **Papur y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**

### **Y Pwyllgor Deisebau**

**Dyddiad: 10 Ionawr 2012**

**Amser: 10:30 – 11:00**

**Teitl: Papur Tystiolaeth i'r Pwyllgor Deisebau ar Ddeisebau P-03-144  
Gofod a Rennir, P-03-162 Llansbyddydd a P-03-261 Atebion Lleol  
i Dagfeydd Traffig yn y Drenewydd**

### **Cyflwyniad**

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth a diweddariad i'r Pwyllgor ar dair deiseb: P-03-144 ar Ofod a Rennir, P-03-162 ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd yn Llansbyddydd a P-03-261 ar Atebion Lleol i Dagfeydd Traffig yn y Drenewydd.

### **P-03-144 CŴN TYWYS Y DEILLION – GOFOD A RENNIR**

1. Ym Mehefin 2008 cyflwynodd Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion ddeiseb yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru osod cyfrifoldeb penodol ar awdurdodau lleol i fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl, ac i gydymffurfio â hwy drwy beidio â chreu canol trefi, strydoedd mawr a strydoedd preswyl ag arwynebau a rennir sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl ddall, pobl rannol ddall a phobl anabl eraill, gan eu hallgáu i bob pwrpas o amgylchedd y stryd.
2. Cadwyd y ddeiseb ar agor gan y Pwyllgor nes bod yr Adran Drafnidiaeth yn cyhoeddi Nodyn Trafnidiaeth Leol 1/11 – Gofod a Rennir. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Hydref; mae'n canolbwyntio ar rannu gofod mewn strydoedd mawr ac yn rhoi pwyslais penodol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a dylunio cynhwysol.
3. Dogfen ganllawiau yw'r Nodyn Trafnidiaeth Leol hwn, ac fe'i paratowyd ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr ac ymarferwyr eraill sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio a darparu strydoedd lle mae'r gofod yn cael ei rannu. Wrth ei ddatblygu, manteisiwyd ar brosiect ymchwil dwy flynedd a oedd yn cynnwys ystod eang o gyfranogion, gan gynnwys Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion.
4. Yn 2009, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth adroddiad arfarnu ar ofod a rennir. Daw i'r casgliad nad oes gan gynlluniau rhannu gofod yn y DU, gan gynnwys y rhai ag arwynebau a rennir, fwy o anafusion na threfniadau confensiynol, ac na chaiff grwpiau penodol, gan gynnwys pobl anabl, eu hanafu'n amlach ar ôl eu cyflwyno.

5. Cyflawnwyd mwy o ymchwil i adeiladu ar yr adroddiad arfarnu ac i ddatblygu'r canllawiau. Roedd hyn yn cynnwys nifer o astudiaethau achos o strydoedd lle mae'r gofod eisoes yn cael ei rannu.
6. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r canllawiau'n ffurfiol am fod rhai gwahaniaethau pwysig yn y darpariaethau cydraddoldeb statudol i Gymru y mae angen eu cadarnhau cyn y gallwn gymeradwyo'r nodyn cyngor hwn. Mae gwaith yn cael ei gyflawni ar hyn.
7. Nes bod mwy o dystiolaeth ar gael o effeithiau'r cynlluniau rhannu gofod sydd eisoes ar waith ar draws y DU, ni fydd Llywodraeth Cymru'n datblygu cynlluniau o'r fath ar ffyrdd yn ein hawdurdodaeth. Byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried holl anghenion y rhanddeiliaid, yn enwedig y rhai agored i niwed sy'n defnyddio'r ffyrdd, wrth roi'r cynlluniau hyn ar waith ar eu ffyrdd eu hunain.

### **P-03-162 –Trigolion Llansbyddydd – Diogelwch ar y Ffyrdd yn Llansbyddydd**

1. Yn Nhachwedd 2008 cyflwynodd Trigolion Llansbyddydd ddeiseb yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru wella diogelwch ar y ffyrdd ym mhentref Llansbyddydd, ger Aberhonddu ym Mhowys, drwy gyflwyno mesurau gostegu traffig fel gostwng y terfyn cyflymder presennol, gwella'r goleuadau ar ochr y ffordd a gwella'r arwyddion ar yr A40.
2. Ar ôl i'r gymuned fynegi pryder, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Ymchwiliad Rhagarweiniol i Gefnffordd yr A40 (Rhaglan–Llanymddyfri) yn Llansbyddydd. Aethpwyd ati i astudio amgylchedd y gefnffordd drwy'r pentref i weld a oedd angen mesurau, yn unol â chanllawiau'r awdurdod cefnffyrdd, i wella diogelwch. Cyflwynwyd copi o'r adroddiad i'r Pwyllgor Deisebau ym mis Hydref 2011.
3. Argymhellwyd yn yr adroddiad y dylai'r gefnffordd gael arwyddion a llinellau mwy gweladwy wrth gyffyrdd; arwyddion â chefnau melyn a phlatiau "arafwch nawr" yn rhybuddio gyrwyr bod cyffordd o'u blaen; ac ARAF/SLOW ar ddarn coch ar y ffordd, 100 metr o'r gyffordd â'r ffordd ymyl.
4. Cyflawnwyd y gwaith hwn yn 2011. Bydd yr amodau ar y ffordd yn cael eu monitro i asesu canlyniad y gwelliannau hyn ac i weld a oes angen mwy o fesurau.
5. Ystyriwyd yr angen am well goleuadau yn rhan o'r astudiaeth hon. Nid oedd y data damweiniau ar gyfer Llansbyddydd yn dangos bod unrhyw broblemau penodol o ran gwrthdrawiadau yn y nos neu'r goleuadau, felly nid argymhellwyd newidiadau i'r goleuadau.

### **P-03-261 Atebion Lleol i Dagfeydd Traffig yn y Drenewydd**

1. Yn Ionawr 2010, cyflwynodd Garry Saady, sy'n byw yn y Drenewydd, ddeiseb o 37 o lofnodion yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ohirio penderfyniad ynglŷn â'r ffordd osgoi arfaethedig yn y Drenewydd nes ei bod wedi datblygu a threialu cyfres o fesurau cynaliadwy yn y dref ei hun i fynd i'r afael â thagfeydd traffig.
2. Ym Mawrth 2010, ystyriodd y Pwyllgor Deisebau ddiweddariad o'r ddeiseb hon am fod y deisebwr wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol. Ym Mai 2010, cyflwynodd y Gweinidog ar y pryd ymateb manwl i'r Pwyllgor Deisebau yn ymdrin â'r pwyntiau penodol a godwyd gan y deisebwr.
3. Cyhoeddwyd y llwybr a ffefrir ar 13 Hydref 2010.
4. Os cwblheir y gweithdrefnau caniatâd statudol yn llwyddiannus, ac os bydd cyllid ar gael, dylai'r gwaith adeiladu gychwyn tua diwedd 2014/dechrau 2015.

### **P-04-319 Traffig yn y Drenewydd**

1. Ym mis Mehefin 2011, cyflwynodd Paul Pavia ddeiseb gyda 10 o lofnodion yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:
  - a) Gosod cylchfan ger y gyffordd â heol Ceri ac, os bydd llif y traffig yn gwella, osod cylchfan barhaol yno.
  - b) Cyhoeddi dyddiad cychwyn cynnar i adeiladu ffordd osgoi'r Drenewydd ac i roi blaenoriaeth i gwblhau'r gwaith hwnnw cyn gynted ag y bo modd.
2. Ym mis Mehefin, ysgrifennodd y Pwyllgor Deisebau at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn am sylwadau. Ymatebodd y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2011 trwy anfon llythyr yn amlinellu'r pryderon ynghylch gosod cylchfan ger y gyffordd â heol Ceri.
3. Os cwblheir y gweithdrefnau caniatâd statudol yn llwyddiannus, ac os bydd cyllid ar gael, dylai'r gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi gychwyn tua diwedd 2014/dechrau 2015.